



Rhag-ddigwyddiad Cymru Serameg yng Nghanolfan Grefft Rhuthun

Dydd Sul, Gorffennaf 8^{fed} 2018

10am – 12.00pm Digwyddiad Stiwdio Agored ar gyfer Cymru Serameg

1.30pm – 4.00pm Sgwrs ac Arddangosiadau â'r Seramegydd Justine Allison.

£5 ffoniwch i neilltuo lle, os gwelwch yn dda

Consesiwn £3.00 i fyfyrwyr.

Lleoedd cyfyngedig ar gael

Mae Canolfan Grefft Rhuthun yn hynod falch o fod yn ymglymedig â Chymru Serameg 2018 ac fel rhagarweiniad i'r prif ddigwyddiad, **o Orffennaf 13eg i ddydd Sul y 15fed, 2018 yn Ysgol y Celfyddydau Creadigol, Glyndŵr**, byddwn yn cynnal rhag-ddigwyddiad yn y **Ganolfan Grefft ar ddydd Sul, Gorffennaf 8fed**.

Bydd sesiwn y bore'n ddigwyddiad stiwdio agored gyda chyfle i ddarganfod mwy am y prif ddigwyddiad ei hun ac i gael golwg ymlaen llaw ar beth o'r gwaith a fydd yn ymddangos ar stondinau'r gwneuthurwyr yng Nglyndŵr. Galwch heibio ar unrhyw adeg rhwng 10am a 12pm i gael gwybod mwy.

Bydd sesiwn y prynhawn yn cynnwys sgwrs ac arddangosiad gan y Seramegydd Justine Allison i gyd-ddigwydd â'i harddangosfa solo 'Iaith Clai – Llinellau Symudol' yng Nghanolfan Grefft Rhuthun (sy'n cael lle amlwg yn y *Ceramic Review*, rhifyn 291.)

Ynglŷn â

Bydd Justine Allison yn gweithio dim ond â phorslen fydd wedi'i lunio â llaw - yn creu darnau lled-ymarferol. Bydd ei gwaith yn delio â'r ffiniau rhwng swyddogaeth ac addurniad, yn edrych ar wrthrychau a ddefnyddir yn ddyddiol (fel ffurf jwg) ac yn creu darnau sy'n symud i ffwrdd oddi wrth swyddogaeth ac sy'n ymwneud yn fwy â'r esthetiaid a'r gweledol.

Mae'r gwaith yn ymwneud yn fawr iawn â symlrwydd a harddwch y clai, yn ymgorffori patrwm ac ansawdd yn ogystal â gwydredd i greu amrywiadau unigryw. Mae teneuwch a symudiad yn bwysig iawn ym mhob un o ddarnau Justine.

Sgwrs ac Arddangosiadau – Justine Allison

Bydd arddangosiad y prynhawn yn cynnwys y broses o wneud o dylino'r clai, rollo'r clai nes ei fod yn denau iawn, oddeutu 1mm, torri allan a llunio darn taprog â llaw, yn ogystal ag arddangos gwneuthuriad jwg.

1.30pm Rhagarweiniad i'r gwaith

2pm Rhan 1 - Arddangosiad

3pm Toriad am de a choffi

3.20pm Rhan 2 - Arddangosiad

4.15pm Cwestiwn ac Ateb

4.30pm Diwedd



Ffotograffiaeth: Toril Brancher

Cyfres o arddangosfeydd cenedlaethol teithiol yw laith Clai, wedi'u trefnu gan y Mission Gallery mewn cydweithrediad â Chanolfan Grefft Rhuthun a'u hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Mission Gallery



Canolfan Grefft Rhuthun
Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol
Ruthin Craft Centre
The Centre for the Applied Arts

Canolfan Grefft Rhuthun
Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol

Yn agored yn ddyddiol o 10.00am – 5.30pm.
Mynediad am ddim. Maes parcio am ddim.

Canolfan Grefft Rhuthun,
Heol y Parc, Rhuthun,
Sir Ddinbych, LL15 1BB
Ffon: +44 (0)1824 704774
E-bost: thegallery@rccentre.org.uk

I gael mwy o wybodaeth am Ganolfan Grefft Rhuthun, ewch i'w gwefan
www.ruthincraftcentre.org.uk



Ceramic
Wales

I gael mwy o wybodaeth am Gymru Serameg a'u digwyddiadau sydd ar ddod, ewch i'w gwefan
www.ceramicwales.co.uk

